YCHWANEGU GWYBODAETH

Cynnwys

Helpwch ni i ddeall bywyd teuluol y Deyrnas Unedig hyd yn oed yn well! 2

Ychwanegu gwybodaeth o'ch cofnodion arferol 2

Pam rydym ni am wneud hyn? 2

WYDDOCH CHI ..... **Error! Bookmark not defined.**

PWY SY'N PENDERFYNU YNGHYLCH YCHWANEGU GWYBODAETH O GOFNODION ARFEROL? 2

Pryd daw eich caniatâd i ben? 2

Gwybodaeth am ble rydych chi'n byw 3

Mae eich preifatrwydd yn bwysig 3

WYDDOCH CHI 3

Newid eich caniatadau 3

Oes gennych chi gwestiwn? 3

Helpwch ni i ddeall bywyd teuluol y Deyrnas Unedig hyd yn oed yn well!

Ychwanegu gwybodaeth o'ch cofnodion arferol

Mae adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth (megis y GIG) eisoes yn cadw cofnodion amdanom ni i gyd. Dyna sut maen nhw'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. Gyda'ch caniatâd, hoffem ychwanegu'r wybodaeth ganlynol amdanoch chi a'ch plentyn at eich ymatebion i'r astudiaeth:

- **Cofnodion iechyd:** megis ymweliadau ag ysbytai a meddygon teulu, presgripsiynau, cyflyrau iechyd a data marwolaethau.
- **Cofnodion addysg:** megis canlyniadau arholiadau, presenoldeb yn yr ysgol neu'r coleg, anghenion addysg arbennig, a defnydd o ofal plant.
- **Cofnodion gofal cymdeithasol:** megis profiad o wasanaethau cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Sganiwch yma i wylio fideo byr am ychwanegu gwybodaeth:

Pam rydym ni am wneud hyn?

Mae ychwanegu gwybodaeth o gofnodion arferol yn helpu llenwi'r bylchau ac yn darparu manylion ychwanegol megis sut mae teuluoedd yn defnyddio gwasanaethau – gan roi darlun mwy cyflawn i ymchwilwyr o'ch bywydau. Mae hefyd yn golygu nad oes angen i ni ofyn cymaint o gwestiynau yn eich cyfweliad.

Drwy gyfuno cofnodion o feysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol â gwybodaeth eich arolwg, gall ymchwilwyr edrych ar bethau fel:

- Sut mae bywyd cartref a gofal plant yn effeithio ar ba mor barod yw plant ar gyfer yr ysgol?
- Beth all ei gwneud hi'n anodd i blant ifanc a'u teuluoedd gael y gofal iechyd a'r cymorth arall sydd ei angen arnynt?
- Sut allwn ni gefnogi rhieni sydd wedi tyfu i fyny mewn gofal yn well, a theuluoedd sy'n cael cymorth gan wasanaethau plant?

Wyddoch Chi:

Fe wnaeth ymchwil gan ddefnyddio cofnodion addysg yn Lloegr ddangos y gall plant sy'n cael eu geni yn yr haf fod dan anfantais, o'i gymharu â phlant hŷn yn eu dosbarth. Arweiniodd y canfyddiadau hyn at newid ym mholisi derbyniadau ysgolion yn Lloegr – gall plant nawr ddechrau yn yr ysgol yn bump oed yn lle pedair oed. Mae gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon bolisïau tebyg eisoes.

PWY SY'N PENDERFYNU YNGHYLCH YCHWANEGU GWYBODAETH O GOFNODION ARFEROL?

Eich dewis chi yw ychwanegu gwybodaeth o'r holl gofnodion hyn, rhai ohonynt neu ddim o gwbl. Dim ond gyda'ch caniatâd chi y byddwn yn gwneud hyn. Beth bynnag a benderfynwch, gallwch barhau i gymryd rhan yn yr astudiaeth a gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd.

Pryd daw eich caniatâd i ben?

Byddwn yn ychwanegu cofnodion yn ymwneud â'ch amgylchiadau chi a'ch plentyn yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Oni bai eich bod yn dweud wrthym i stopio, byddwn yn parhau i wneud

hyn, gan gynnwys os penderfynwch beidio â chymryd rhan mewn cyfweliadau yn y dyfodol neu os byddwn yn colli cysylltiad â chi.

Gofynnir i'r rhiant sy'n gwneud y cyfweliad hirach yn unig am gysylltu cofnodion eich plentyn, felly efallai yr hoffech drafod hyn gyda rhiant arall eich plentyn. Mae caniatâd ar gyfer eich plentyn yn cwmpasu cofnodion iechyd hyd at 14 oed a chofnodion addysg hyd at 16 oed. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban mae caniatâd ar gyfer cofnodion gofal cymdeithasol hyd at 16 oed ac yng Ngogledd Iwerddon mae hyd at 14 oed. Gall eich plentyn benderfynu drosto'i hun pan fydd yn hŷn.

Gwybodaeth am ble rydych chi'n byw

Rydym hefyd yn bwriadu ychwanegu gwybodaeth am eich ardal leol a'ch cartref, megis llygredd aer, mannau gwyrdd, gwasanaethau cyfagos, ac effeithlonrwydd ynni cartref. Mae hyn yn helpu ymchwilwyr i ddeall sut mae'r amgylchedd yn llunio iechyd a datblygiad eich babi. Mae llawer o'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd ac nid yw'n wybodaeth ar lefel unigol amdanoch chi, felly nid ydym yn gofyn am eich caniatâd i'w hychwanegu. Rydym yn bwriadu gwneud hyn ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth. Fodd bynnag, gallwch ddewis peidio â chymryd rhan drwy ddefnyddio'r manylion ar gefn y llyfryn hwn.

Mae eich preifatrwydd yn bwysig

Ychwanegir gwybodaeth **yn ddiogel ac yn gyfrinachol**. Dim ond manylion personol cyfyngedig megis eich enw a'ch cyfeiriad a ddefnyddir i baru'r wybodaeth briodol i chi yn gywir. Gwneir hyn gan sefydliadau dibynadwy ac ymchwilwyr arbenigol mewn amgylcheddau diogel. Nid yw'r data cyfunol (eich ymatebion i'r astudiaeth a'r wybodaeth ychwanegol) a ddefnyddir ar gyfer ymchwil **byth yn cynnwys unrhyw fanylion personol sy'n datgelu pwy ydych chi**. Mae'r data ymchwil cyfunol ar gael i ymchwilwyr drwy Wasanaeth Data'r DU, Cydweithrediad Cysylltiadau Hydredol y DU a gwasanaethau tebyg eraill. Darllenwch ragor yn gnestudy.info/privacy.

Mae eich gwybodaeth astudiaeth yn aros yn gwbl gyfrinachol rhag sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau neu fuddion y gallech chi neu'ch babi eu defnyddio neu eu derbyn.

WYDDOCH CHI

Efallai fod pobl ifanc dan anfantais ar eu colled o ran cymorth iechyd meddwl. Fe wnaeth ymchwilwyr ddarganfod hyn drwy gymharu'r hyn a ddywedodd pobl ifanc am eu hiechyd meddwl â chofnodion y GIG.

Newid eich caniatadau

Os byddwch yn newid eich meddwl neu os ydych am dynnu'n ôl o unrhyw un o'r caniatadau hyn, gallwch gysylltu â thîm yr astudiaeth gan ddefnyddio'r manylion uchod, neu ar-lein yma:

Oes gennych chi gwestiwn?

Ewch i **gnestudy.info/addinginformation**

Bydd eich cyfwelydd yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych, neu gallwch gysylltu â thîm yr astudiaeth: **gnestudy@ipsos.com**
0800 151 0610